# DEDDF TRWYDDEDU 2003

# DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU

*Adolygiad polisi 30.07.13  Adolygiad PEG 26.01.17*
*Adolygiad polisi 26.07.18    Adolygiad Polisi 06.07.23*

**DEDDF TRWYDDEDU 2003**
**DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU**

**CYNNWYS**


| | | TUDALEN |
|---|---|---|
| | **Rhagair** | 3 |
| **1.** | Cyflwyniad | 6 |
| **2.** | Pwrpas / Amcanion | 6 |
| **3.** | Cwmpas a Chyfyngiad | 6 |
| **4.** | Rheolaeth | 7 |
| **5.** | Ymgynghoriad | 8 |
| **6.** | Effaith Gronnus | 10 |
| **7.** | Oriau Trwyddedu | 14 |
| **8.** | Plant | 15 |
| **9.** | Integreiddio Strategaethau | 17 |
| **10.** | Hyrwyddo Cydraddoldeb | 18 |
| **11.** | Dyblygu | 18 |
| **12.** | Amodau | 18 |
| **13.** | Gorfodi | 19 |
| **14.** | Arweiniad ar Ddigwyddiadau Awyr Agored a Lleoedd Gorlawn | 20 |
| **15.** | Ceisiadau am drwyddedau, tystysgrifau, awdurdodiadau ac adolygiadau | 21 |
| **16.** | Gweinyddu | 24 |
| **17.** | Dirprwyo Swyddogaethau | 24 |
| **18.** | Yr Amcanion Trwyddedu | 26 |
| **19.** | Materion Cyffredinol | 27 |
| **20.** | Pwynt Cyswllt ar gyfer Trwyddedu | 27 |

**Dinas a Sir Abertawe**

**Deddf Trwyddedu 2003**

**Datganiad o Bolisi Trwyddedu**

## RHAGAIR

O dan Ddeddf Trwyddedu 2003, mae Dinas a Sir Abertawe yn gyfrifol am y canlynol:

(a) Gweinyddu'r broses ar gyfer rhoi "**trwyddedau personol**" i werthu alcohol. Mae angen trwydded bersonol ar rywun sy'n dymuno gwerthu alcohol ac, oni bai iddi gael ei hildio neu ei dirymu, mae'n parhau mewn grym am gyfnod amhendant; ac

(b) Awdurdodi unrhyw fangre ar gyfer "gweithgareddau trwyddedadwy" drwy roi **"trwydded mangre"** neu **"dystysgrif mangre clwb"** a fydd yn parhau mewn grym nes iddi gael ei hildio neu ei dirymu, neu drwy "**hysbysiad o ddigwyddiad dros dro**". Diffinnir "gweithgareddau trwyddedadwy" fel a ganlyn:

(i) gwerthu alcohol;

(ii) cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb;

(iii) darparu adloniant a reoleiddir (h.y. perfformiad drama, dangos ffilm, digwyddiad chwaraeon dan do, adloniant paffio neu reslo [dan do ac awyr agored], chwaraeon ymladd cyfunol fel ymladd mewn cawell, perfformiad cerddoriaeth fyw, chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiad dawns, adloniant y gellir ei ddisgrifio'n debyg i berfformio cerddoriaeth fyw, chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio a dawns).
DS - Dim ond pan fo'r adloniant yn digwydd gerbron cynulleidfa gyda'r bwriad o ddiddanu'r gynulleidfa honno neu lle mae'r gweithgarwch yn digwydd yn breifat, a chodir tâl amdano er mwyn gwneud elw;

iv) darparu lluniaeth gyda'r nos.

(c) Mae gweithgareddau penodol, sy'n ymwneud â darparu adloniant a darparu bwyd a diodydd twym, yn eithriedig rhag ofynion trwyddedu. Gellir gweld manylion yr eithriadau hyn yn Neddf Trwyddedu 2003.

(ch) Nid yw'n ofynnol bellach i rai gweithgareddau gael eu trwyddedu oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth o ganlyniad i ddadreoleiddio.

Mae diwygiadau a wnaed i Ddeddf 2003 gan Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 a Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Disgrifiadau o Adloniant) (Diwygiad) 2013,

Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol 2014 a Deddf Dadreoleiddio 2015, yn golygu nad oes angen trwydded ar gyfer y gweithgareddau canlynol i'r graddau y maent yn digwydd rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod:

- Perfformiad o ddrama gerbron unrhyw gynulleidfa nad yw'n fwy na 500 o bobl;

- Digwyddiad chwaraeon dan do gerbron unrhyw gynulleidfa nad yw'n fwy na 1,000 o bobl; mae hyn yn cynnwys reslo Groegaidd-Rufeinig neu arddull rydd

- Y rhan fwyaf o berfformiadau dawns gerbron unrhyw gynulleidfa nad yw'n fwy na 500 o bobl; ac

- Cherddoriaeth fyw, lle mae'r gerddoriaeth fyw'n cynnwys;
  - Perfformiad o gerddoriaeth fyw heb ei mwyhau
  - Perfformiad o gerddoriaeth fyw wedi'i mwyhau mewn gweithle gyda chynulleidfa o hyd at 500 o bobl; neu
  - Berfformiad o gerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio mewn mangre drwyddedig sy'n digwydd gerbron cynulleidfa o hyd at 500 o bobl, yn amodol ar fodloni rhai amodau.

- Cerddoriaeth wedi'i recordio, lle mae'r gerddoriaeth wedi'i recordio'n cynnwys;
  - Unrhyw gerddoriaeth wedi'i recordio sy'n cael ei chwarae mewn mangre drwyddedig sy'n digwydd gerbron cynulleidfa o hyd at 500 o bobl;
  - Unrhyw gerddoriaeth wedi'i recordio sy'n cael ei chwarae mewn mangre heb drwydded, yn amodol ar fodloni rhai amodau
  - Dawns - nid oes angen trwydded ar gyfer perfformiadau ar unrhyw ddiwrnod ar yr amod nad yw'r gynulleidfa'n cynnwys mwy na 500 o bobl.

Lle bydd gweithgareddau sydd wedi'u dadreoleiddio'n digwydd mewn unrhyw fangre drwyddedig, bydd unrhyw amodau trwydded sy'n ymwneud â cherddoriaeth neu adloniant 'byw' yn cael eu hatal, ond mae'n bosib gosod amodau newydd, neu adfer amodau sydd mewn bod yn dilyn adolygiad o drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb.

Wrth ystyried a yw gweithgarwch yn golygu 'darparu adloniant wedi'i reoleiddio', caiff pob achos ei drin yn ôl ei deilyngdod. Mae'n anochel y bydd rhywfaint o farn ynghylch a yw perfformiad yn gerddoriaeth fyw ai peidio, felly anogir trefnwyr digwyddiadau i gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i drafod a fydd angen trwydded.

Gweithgaredd anawdurdodedig: Mae'n drosedd o dan adran 136 o Ddeddf 2003 i gynnal unrhyw un o'r gweithgareddau trwyddedadwy a restrir uchod ac eithrio'n unol â thrwydded neu awdurdodiad arall o dan Ddeddf 2003. Os bydd gweithgaredd anawdurdodedig yn digwydd, yna mae gan yr Heddlu ac awdurdodau lleol bwerau i weithredu.
Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn cyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd ac un o'r rhain yw'r gallu i gael dylanwad ehangach ar ddatblygiad gweithgareddau hamdden.

Mae'r diwydiant adloniant yn yr ardal yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol drwy ddenu twristiaid ac ymwelwyr, helpu i gadw ardaloedd a chymunedau'n fywiog a thrwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth sylweddol.

Yn ogystal â chanolfan adloniant sefydledig, mae gan Abertawe boblogaeth sylweddol o breswylwyr y mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i amddiffyn eu hamwynder. Gallai cynyddu nifer y mangreoedd trwyddedig effeithio ar breswylwyr ardaloedd penodol, yn enwedig os cyflwynir oriau agor estynedig.

Yn ogystal, mae'n deg i weithredwyr mathau eraill o fusnesau ddisgwyl bod yr amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo yn un deniadol a chynaliadwy ar gyfer eu busnes.

Felly, bydd y Cyngor yn defnyddio'i bwerau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 i hyrwyddo arfer gorau a sicrhau mangreoedd trwyddedig sy'n cael eu rheoli'n briodol a bod deiliaid trwyddedau'n rhoi ystyriaeth briodol i effaith eu mangreoedd ar breswylwyr a busnesau lleol.

Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau statudol, y fasnach drwyddedig, busnesau a phreswylwyr lleol i hwyluso ymagwedd bartneriaeth at greu polisi trwyddedu sy'n cydbwyso buddion y fasnach drwyddedig a'i chwsmeriaid yn erbyn buddion cymunedau busnes a phreswyl yr ardal.

Mae Dinas a Sir Abertawe ar arfordir de-orllewin Cymru. Mae ei hardal weinyddol yn ymestyn dros 378 o gilomedrau sgwâr ac mae ganddi le pwysig yn natblygiad hanesyddol, gwleidyddol ac economaidd Cymru.

Dinas Abertawe, ar aber afon Tawe, yw ail ddinas fwyaf Cymru. Mae’n ganolfan siopa, hamdden, diwylliannol, addysg a gweinyddol rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru, ac fe’i hamgylchynir ar dair ochr gan gyfres o ganolfannau tref, rhanbarthol a lleol sydd wedi'u cysylltu â chanol y ddinas drwy rwydwaith o briffyrdd cydgyfeiriol.

Mae gan Ddinas a Sir Abertawe boblogaeth o oddeutu*238,500 (2021).* (2021). Mae hyn yn cynrychioli 7.7% o boblogaeth Cymru gyfan.

Abertawe yw un o ardaloedd twristiaeth pwysicaf Cymru ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i fusnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth a busnesau eraill. Mae porthladd morol a dinas y glannau Abertawe, cyrchfan hyfryd Fictoraidd y Mwmbwls a golygfeydd godidog Gŵyr i gyd yn gyrchfannau hynod boblogaidd yn eu rhinweddau eu hunain.

Mae gan economi Abertawe gyfran fawr o swyddi yn y sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus, lletygarwch, gwasanaethau ariannol a manwerthu. O'r *108,000* o bobl a gyflogir yn Abertawe *(2021)*, amcangyfrifir bod 89.8% ohonynt *(97,000)* yn gweithio yn y sector gwasanaeth, gyda *29.6% (31,900)* yn gweithio yn y sector cyhoeddus.

Mae Abertawe'n gartref i nifer o gyflogwyr mawr cyhoeddus a phreifat yn y sectorau cynhyrchu a gwasanaeth; y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf gyda mwy nag 11,000 o aelodau staff.

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Cyngor Abertawe (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") yw'r Awdurdod Trwyddedu fel a ddiffinnir yn Neddf Trwyddedu 2003 [y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "y Ddeddf"].

1.2 Yn unol â'r Ddeddf hon, mae'n rhaid i Awdurdod Trwyddedu baratoi a chyhoeddi datganiad o'i bolisi trwyddedu bob pum mlynedd. Mae mabwysiadu'r polisi hwn yn ofyniad statudol ac mae'n rhaid ei gyhoeddi i alluogi'r Awdurdod Trwyddedu i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â cheisiadau unigol a wneir o dan delerau'r Ddeddf. Caiff y polisi ei adolygu'n gyson a'i ddiwygio fel y bo'n briodol ond heb fod yn llai aml na phob pum mlynedd.

1.3 Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli'r datganiad a adolygwyd o bolisi trwyddedu'r Cyngor a gyhoeddwyd ar 2 Rhagfyr 2004, gyda diwygiadau dilynol ar 17 Ionawr 2008, 7 Ionawr 2011, 30 Gorffennaf 2013, 26 Ionawr 2017 a 26 Gorffennaf 2018. Mae'r polisi hwn yn dod i rym o 26 Gorffennaf 2023 ac mae'n aros mewn grym nes iddo gael ei adolygu'n unol â'r "Ddeddf".

1.4 Bydd unrhyw ddatganiad yn y polisi hwn yn berthnasol i bob mangre drwyddedig oni nodir yn wahanol.

## 2. PWRPAS / AMCANION

2.1 Diben y polisi hwn yw disgrifio sut bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau fel Awdurdod Trwyddedu i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu a bennir yn y Ddeddf. Mae'r amcanion hyn fel a ganlyn:

- atal trosedd ac anhrefn;
- diogelwch y cyhoedd;
- atal niwsans cyhoeddus; ac
- amddiffyn plant rhag niwed.

2.2 Ystyrir bod pob un o'r amcanion hyn o bwys cyfartal a chânt eu hystyried yn fwy manwl ym mharagraff 18, yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

## 3. CWMPAS A CHYFYNGIAD

3.1 Lluniwyd y datganiad o bolisi trwyddedu hwn yn unol â gofynion y Ddeddf gan roi sylw hefyd i'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan Is-adran 182 y Ddeddf, gan yr Ysgrifennydd Cartref ym mis Ebrill 2018 yn dilyn diwygiadau blaenorol o'r

canllawiau. Lle bo'r polisi trwyddedu'n wahanol i'r canllawiau hyn, darperir y rhesymau dros pam y gwnaed y fath benderfyniad

3.2 Mae adran 5 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Trwyddedu baratoi a chyhoeddi datganiad o'i bolisi trwyddedu bob 5 mlynedd. Mae'n rhaid cyhoeddi polisi o'r fath cyn i'r awdurdod gyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â cheisiadau unigol a wneir o dan delerau'r Ddeddf. Mae gan y datganiad polisi hwn, yn bennaf, bedwar prif bwrpas;

a. Darparu fframwaith gwneud penderfyniadau i Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu. Bydd y polisi'n cael ei ystyried mewn gwrandawiad yn dilyn sylwadau.

b. Hysbysu ymgeiswyr o'r paramedrau y gall yr Awdurdod wneud penderfyniadau trwyddedu oddi mewn iddynt a'u galluogi i ystyried hyn wrth wneud ceisiadau.

c. Darparu arweiniad i breswylwyr a busnesau lleol ar y ffiniau y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gwneud penderfyniadau trwyddedu oddi mewn iddynt. Bydd hyn yn cynorthwyo'r partïon hynny wrth gyflwyno sylwadau mewn perthynas ag amrywiol geisiadau.

ch. Cefnogi'r Awdurdod Trwyddedu os oes rhaid iddo ddangos mewn llys barn sut y cyrhaeddodd ei benderfyniadau trwyddedu.

Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n barhaus a bydd yr Awdurdod Trwyddedu, os oes angen, ar ôl ymgynghoriadau priodol, yn gwneud y fath ddiwygiadau iddo ag y maent yn ystyried eu bod yn briodol. Bydd unrhyw ddiwygiadau'n cael eu hymgorffori yn y datganiad trwyddedu ar ôl pob adolygiad.

3.3 Nid yw'r polisi'n sathru hawl unrhyw unigolyn i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â chais na gofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle bo darpariaeth yn y Ddeddf i wneud hynny.

## 4. RHEOLAETH

4.1 Mae trwyddedu'n ymwneud â rheoleiddio "gweithgareddau trwyddedadwy" mewn mangreoedd trwyddedig, mewn clybiau cymwys ac mewn digwyddiadau dros dro.

4.2 Bydd unrhyw amodau a thelerau sydd ynghlwm wrth drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb yn canolbwyntio ar y materion sydd dan reolaeth Deilydd y Drwydded Mangre neu'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig. Gellir newid Hysbysiadau o Ddigwyddiad Dros Dro hefyd os yw'r Heddlu a/neu adran Iechyd yr Amgylchedd yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol.

4.3 Bydd y telerau ac amodau neu'r addasiadau hyn yn canolbwyntio ar y fangre'n cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy.

4.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau a gynhelir yn y fangre drwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu'n ymgymryd â gweithgareddau arferol yn yr ardal dan sylw. Bydd disgwyl i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan "Bobl Eraill" ddangos sut bydd y cais yn effeithio arnynt yn uniongyrchol mewn perthynas ag un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

4.5 Nid deddfwriaeth trwyddedu yw'r prif fecanwaith ar gyfer rheoli niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan unigolion unwaith maent wedi gadael y fangre drwyddedig ac nid ydynt dan reolaeth uniongyrchol y bobl sy'n dal yr awdurdodiad perthnasol.

4.6 Os oes dadl a fu digwyddiad yng nghyffiniau ardal y fangre drwyddedig, y llysoedd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

4.7 Bydd y Cyngor yn defnyddio'r mesurau rheoli yn y ddeddfwriaeth trwyddedu fel rhan o ymagwedd gyfannol at reoli'r economi gyda'r hwyr a chyda'r nos yn enwedig yng nghanol y ddinas.

4.8 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob dull rheoli a fydd yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gall y rhain gynnwys cyflwyno Gorchmynion Cyfyngu ar Alcohol yn y Bore Cynnar (EMRO) ac Ardoll Hwyr y Nos. Pan gyflwynir gweithdrefnau rheoli, ymgynghorir â'r partïon perthnasol ym mhob achos.

4.9 Pan fydd yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyflwyno sylwadau ar gais oni bai yr ystyrir bod hyn yn hollol angenrheidiol. Gall y fath achosion gynnwys diffyg sylwadau gan Awdurdod Cyfrifol a phan fydd cais yn ychwanegu at effaith gronnus mangreoedd trwyddedig mewn ardal. Pan gyflwynir sylwadau, gwahaniaethir yn glir rhwng cyfrifoldebau er mwyn sicrhau tegwch gweithdrefnol a dileu gwrthdaro buddiannau.

## 4. YMGYNGHORIAD

5.1 Wrth adolygu'r polisi yn unol â'r Ddeddf, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymgynghori â'r bobl a nodir (ymgyngoreion statudol) fel a ganlyn:

- Heddlu De Cymru;
- Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- pobl/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwyddedau mangreoedd lleol;
- pobl/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwyddedau mangreoedd clwb;
- pobl/cyrff sy'n cynrychioli trwyddedau personol;
- pobl/cyrff sy'n cynrychioli busnesau a phreswylwyr;

5.2 Ymgynghorir â'r canlynol hefyd er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng y polisi hwn a pholisïau, strategaethau neu fentrau eraill y Cyngor ac Awdurdodau Lleol cyfagos eraill.

- Aelodau'r Awdurdod Lleol;
- Y Pwyllgor Trwyddedu;
- Cynrychiolwyr swyddogaethau priodol eraill y Cyngor gan gynnwys:
    - Diogelwch Cymunedol
    - Y Gwasanaethau Cynllunio
    - Ystadau
    - Cludiant a Pheirianneg
    - Adfywio
    - Diwylliant a Thwristiaeth
    - Gwasanaethau Cymdeithasol
    - Rheoli Llygredd
    - Iechyd a Diogelwch
    - Safonau Masnach
- Awdurdodau Trwyddedu Cyfagos;
- Llys Ynadon Abertawe
- Cyfreithwyr Trwyddedu
- Yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys
- Y Gwasanaeth Ambiwlans
- Undeb y Cerddorion

5.3 Caiff barn "Pobl Eraill" ei hystyried wrth benderfynu ar y polisi ac unrhyw newidiadau perthnasol. "Mae "Pobl Eraill" yn cynnwys unrhyw unigolyn, corff neu fusnes sydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i Awdurdodau Trwyddedu mewn perthynas â cheisiadau i roi, amrywio (gan gynnwys mân amrywiadau) neu adolygu trwyddedau mangreoedd a thystysgrifau mangreoedd clwb, ni waeth pa mor agos ydynt i'r fangre.

5.4 O fis Ebrill 2012, diwygiwyd Deddf Trwyddedu 2003 gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 fel bod Byrddau Iechyd Lleol (Cymru) ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol (Lloegr) yn dod yn awdurdod cyfrifol. Yn Abertawe, mae swyddogaeth y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei chyflawni gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIP).

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod effaith camddefnyddio alcohol ar boblogaeth Abertawe a gwasanaethau lleol. Y gobaith yw y bydd hyrwyddo'r pedwar Amcan Trwyddedu yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar atal camddefnyddio alcohol yn yr ardal. Er enghraifft, drwy ystyried unrhyw wybodaeth a gyflwynir gan y BIP ar effeithiau defnyddio alcohol ar iechyd; y data ar y defnydd o alcohol yn ardal Abertawe; a'r dystiolaeth ynghylch argaeledd a fforddiadwyedd ar yfed mwy o alcohol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymwybodol o effaith ei benderfyniadau ar atal camddefnyddio alcohol yn yr ardal. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd unrhyw effaith gadarnhaol yn gyd-ddigwyddiad

sy'n deillio o'r Awdurdod Trwyddedu yn cyflawni ei swyddogaeth drwyddedu ac nid yn seiliedig ar iechyd y cyhoedd fel amcan.
Efallai bydd Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn dymuno cyflwyno sylwadau yn yr amgylchiadau canlynol:

- Ceisiadau newydd
- Mewn ceisiadau am Adolygiad neu Amrywiad lle bo:
    - Mangre drwyddedig sy'n bodoli, y credir nad yw'n hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, neu;
    - Mangre drwyddedig sy'n bodoli, lle mae gwybodaeth i awgrymu nad yw'n cydymffurfio â'r drwydded mangre bresennol
    - Newidiadau arfaethedig mewn gweithgareddau trwyddedadwy a allai gael effaith niweidiol ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu
- Mae'r fangre mewn ardal 'polisi dirlawnder arbennig effaith gronnus', lle mae Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn credu y bydd effaith andwyol ar unrhyw un o'r amcanion trwyddedu.

## ~~5.~~ EFFAITH GRONNUS

6.1 Mabwysiadodd Cyngor Abertawe bolisi arbennig ar Effaith Gronnus gyntaf yn 2013, yn seiliedig yn bennaf ar dystiolaeth a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru ar lefelau trosedd ac anhrefn yn yr ardal. Adolygwyd hyn yn 2017 a gwnaed newidiadau, gan y cydnabuwyd na fyddai rhai mathau o adeiladau, oherwydd eu natur, yn ychwanegu at yr effaith gronnus bresennol.

6.2 Roedd y Polisi Effaith Gronnus (PEG) yn rhan o'r Datganiad Polisi Trwyddedu, a adolygwyd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2018 ac roedd disgwyl i'r PEG gael ei adolygu ym mis Ebrill 2021. Oherwydd pandemig COVID-19 ni ddigwyddodd yr adolygiad yn ôl y bwriad ac aeth y PEG yn ddi-rym o ganlyniad.

6.3 Diwygiwyd Deddf Trwyddedu 2003 gan Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 a gosododd Asesiadau Effaith Gronnus ar sail statudol trwy gyflwyno paragraff 5a o Ddeddf Trwyddedu 2003. Daeth y diwygiad hwn i rym ar 6 Ebrill 2018 gan ddisodli PEGau.

6.4 Cyhoeddir y PEG hwn o dan ddarpariaethau newydd Deddf Trwyddedu 2003 ar gyfer yr ardaloedd a nodwyd ym mharagraff 6.7. Mae'r meysydd hyn yn adlewyrchu'r rhai a oedd gynt yn ddarostyngedig i'r PEG, yn dilyn derbyn tystiolaeth wedi'i diweddaru oddi wrth Heddlu De Cymru mewn perthynas â'r ardaloedd hyn a chais i AEG gael ei gyhoeddi'n unol â'r darpariaethau a oedd ar waith yn flaenorol.

6.5 Mewn ymateb i'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru ac yn unol â'r gofynion ar gyfer cyhoeddi AEG, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi dilyn y camau a nodwyd wrth ystyried a ddylid mabwysiadu AEG:

- maent wedi nodi pryder am drosedd ac anhrefn neu niwsans cyhoeddus;
- maent wedi ystyried a oes tystiolaeth dda fod trosedd ac anhrefn yn digwydd a bod y problemau'n cael eu hachosi gan gwsmeriaid mangreoedd trwyddedig
- maent wedi ystyried lle mae tystiolaeth dda bod trosedd ac anhrefn wedi bod yn broblem ond wedi lleihau oherwydd bod polisi arbennig ar waith;
- maent wedi nodi ffiniau'r ardaloedd lle mae problemau'n digwydd; ac
- maent wedi ymgynghori â'r rheini sydd wedi'u nodi yn adran 5(3) o Ddeddf Trwyddedu 2003,

  ar y cynnig am asesiad effaith gronnus mewn perthynas â cheisiadau ac amrywiadau newydd i drwyddedau mangreoedd a thystysgrifau mangreoedd clwb presennol ac maent wedi ystyried canlyniad yr ymgynghoriad.

6.6 Ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael a chynnal yr ymgynghoriad gofynnol, mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol mynd i'r afael â'r materion effaith gronnus a nodwyd

6.7 Mae'r meysydd a'r materion a gwmpesir gan yr AEG fel a ganlyn:

i) Wind Street a'r ardal o'i chwmpas fel y'u diffinnir;
ii) Ffordd y Brenin a'r ardal o'i chwmpas fel y'u diffinnir;
iii) Y Stryd Fawr a College Street fel y'u diffinnir.

Yr ardaloedd perthnasol yw'r rheini o fewn y ffin a ddiffinnir ar y cynlluniau sy'n atodedig yn Atodiad A, B ac C ac maent yn cynnwys safleoedd sydd â mynedfeydd hygyrch i'r strydoedd o fewn y ffin, gan gynnwys y strydoedd a restrir yn yr amserlenni canlynol: –

i) Wind Street a'r ardal o'i chwmpas

- Wind Street
- Y Strand i'r gyffordd â Welcome Lane
- Worcester Place
- Castle Street
- Gerddi'r Castell
- Sgwâr y Castell
- Green Dragon Lane
- Little Wind Street

- Salubrious Place
- Salubrious Passage
- Caer Street
- Princess Way
- St Mary's Street
- Sgwâr y Santes Fair
- St David's Place
- York Street
- Victoria Road

ii) Ffordd y Brenin a'r ardal o'i hamgylch

- Ffordd y Brenin
- Stryd Dillwyn o'r cyffyrdd â Ffordd y Brenin a Stryd Rhydychen
- Stryd Rhydychen o'r cyffyrdd â Dillwyn Street a Princess Way
- Picton Lane
- Union Street o'r cyffyrdd â Ffordd y Brenin a Stryd Rhydychen
- Park Street
- Portland Street
- Bellvue Way
- Dynevor Place
- Horton Street
- Pell Street
- Cradock Street
- Northampton Lane
- Christina Street
- Newton Street

ii) Y Stryd Fawr a College Street

- Y Stryd Fawr
- College Street

6.8 Mae Wind Street a'r ardal o'i chwmpas, Ffordd y Brenin a'r ardal o'i chwmpas, a'r Stryd Fawr a College Street o fewn ardal yr AEG gan fod yr Awdurdod yn fodlon bod eu cynnwys yn angenrheidiol ac yn briodol, o ystyried nifer y mangreoedd sydd wedi'u trwyddedu i gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre a'r tu allan iddi yn y strydoedd hyn, ynghyd ag achosion o drosedd ac anhrefn y gellir eu priodoli i gwsmeriaid y mangreoedd hyn.

6.9 Yn ogystal ag adolygiadau blaenorol o'r PEG, cydnabyddir bod tafarndai, clybiau nos, bwytai, gwestai, theatrau a mathau eraill o fangreoedd yn gwerthu alcohol, yn gweini bwyd ac yn darparu adloniant ond gyda gwahanol arddulliau a nodweddion, ac oherwydd natur y fangre, ni fyddai'n ychwanegu at yr effaith

gronnus bresennol Ar ôl ystyried y gwahaniaethau hynny a'r effaith y maent yn debygol o gael ar yr ardal leol, mae'r mathau canlynol o fangreoedd sy'n darparu rhai gweithgareddau trwyddedadwy rhwng 10.00am ac 1.00am, yn eithriedig rhag darpariaethau'r AEG:

- Mangreoedd nad ydynt yn gwerthu alcohol;
- Theatrau, lle prif ddiben y fangre yw perfformio dramâu;
- Sinemâu, lle prif ddiben y fangre yw dangos ffilmiau;
- Mangreoedd lle'r prif ddiben yw darparu prydau bwyd sylweddol ar fyrddau;
- Mangreoedd lle gwerthir/cyflenwir alcohol gan weinydd neu weinyddes yn unig.

6.10 Mae'r dystiolaeth ar gyfer yr AEG wedi'i darparu gan Heddlu De Cymru ar sail Trosedd ac Anrhefn.

6.11 Bydd yr asesiad hwn yn gymwys i bob cais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb neu amrywiad iddi o fewn yr ardaloedd effaith gronnus a nodir ym mharagraff 6.9, oni bai y darperir ar eu cyfer yn yr eithriadau a restrir ym mharagraff 5.3. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau am amrywiadau ar gyfer mwy o oriau ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy; cynyddu nifer y cwsmeriaid ac unrhyw fater arall a all ychwanegu at yr effaith gronnus bresennol. Bydd hyn yn ymwneud â safleoedd sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal unrhyw un o'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

- Gwerthu neu gyflenwi alcohol, yn y fangre neu'r tu allan iddi;
- Darparu lluniaeth yn hwyr y nos;
- Darparu unrhyw adloniant wedi'i reoleiddio.

6.12 Nid yw'r AEG yn gymwys i Hysbysiadau o Ddigwyddiadau Dros Dro, fodd bynnag, mae'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003, yn datgan ei bod yn agored i'r heddlu ac awdurdod iechyd yr amgylchedd gyfeirio at yr asesiad hwn a'r dystiolaeth sydd ynddo, wrth wrthwynebu Hysbysiad o Ddigwyddiad Dros Dro. Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod hon yn ymagwedd briodol oherwydd gall ymestyn oriau yn yr ardal a gwmpesir gan yr AEG gael effaith uniongyrchol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

6.13 Nid yw cyhoeddi'r AEG yn newid y ffordd sylfaenol y gwneir penderfyniadau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gwneud yr holl benderfyniadau ar geisiadau o fewn yr ardal effaith gronnus fesul achos a chyda golwg ar yr hyn sy'n briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

6.14 Nid yw'r AEG yn dileu'r angen i awdurdod cyfrifol neu 'bobl eraill' gyflwyno sylwadau perthnasol mewn ymateb i gais, os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac i'r Is-bwyllgor Trwyddedu benderfynu ar y cais. Gall unrhyw un sy'n cyflwyno sylw ei seilio ar y dystiolaeth a gyhoeddwyd yn yr AEG.

6.15 Os na fydd cais yn arwain at dderbyn sylwadau perthnasol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn caniatáu'r cais yn amodol ar amodau sy'n gyson â'r amserlen weithredu ac unrhyw amodau gorfodol perthnasol a fynnir gan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Disgwylir i'r sawl sy'n gwneud cais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb neu gais i'w hamrywio yn yr ardal effaith gronnus, fynd i'r afael â materion effaith gronnus yn eu ceisiadau a dangos na fyddai eu cais a'u gweithrediad arfaethedig yn ychwanegu at yr effaith gronnus.

6.17 Lle derbynnir sylwadau perthnasol mewn perthynas â chais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb neu amrywiad iddi yn yr ardal effaith gronnus, cynhelir gwrandawiad gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Os bydd ymgeisydd, yn ystod gwrandawiad, yn gallu dangos na fydd ei gais a'i weithrediad yn ychwanegu at yr effaith gronnus, gellir caniatáu trwydded. Os nad yw ymgeisydd yn gallu dangos hyn, polisi'r Awdurdod Trwyddedu yw gwrthod y cais.

6.18 Ni fydd yr AEG hwn yn cael ei ddefnyddio:

- fel un absoliwt. Bydd y Datganiad Polisi Trwyddedu bob amser yn caniatáu i amgylchiadau pob cais gael eu hystyried yn briodol ac yn ôl ei deilyngdod ac i geisiadau sy'n annhebygol o ychwanegu at yr effaith gronnus gael eu caniatáu;

- fel rheswm dros ddirymu trwydded neu dystysgrif bresennol pan dderbynnir sylwadau am broblemau gyda'r fangre honno;

- i osod cwotâu yn seiliedig ar naill ai nifer y mangreoedd neu faint o le sydd yn y mangreoedd hynny. Mae hyn oherwydd na fyddai cwotâu sy'n cael yr effaith o ragbennu canlyniad unrhyw gais yn anuniongyrchol yn ystyried nodweddion unigol y fangre dan sylw.

6.19 Bydd yr AEG yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd yn parhau mewn bodolaeth am gyfnod o hyd at 3 blynedd. Bydd yn destun adolygiad ac ymgynghoriad pellach cyn mis Gorffennaf 2026, pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried a yw'n parhau o'r farn a nodir yn yr asesiad.

## 7. ORIAU TRWYDDEDU

7.1 Wrth benderfynu ar geisiadau unigol am drwydded ar gyfer mangre, penderfynir ar yr oriau trwyddedu gan ystyried rhinweddau unigol pob cais. Y rhagdybiaeth fydd caniatáu'r oriau y gofynnwyd amdanynt oni cheir gwrthwynebiadau i'r oriau hynny gan awdurdodau cyfrifol neu bobl eraill ar sail yr amcanion trwyddedu.

7.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod oriau trwyddedu estynedig yn bwysig i'r mangreoedd hynny sy'n gwerthu alcohol, i sicrhau y gellir osgoi cael nifer sylweddol o gwsmeriaid yn gadael y fangre ar yr un pryd. Mae hyn yn arbennig o angenrheidiol i leihau'r posibilrwydd o anhrefn ar y strydoedd ger siopau cludfwyd sydd ar agor yn hwyr y nos, safleoedd tacsi a mannau eraill lle mae pobl yn aros am gludiant a all arwain at anrhefn a tharfu.

7.3 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn creu "parthau" gydag oriau masnachu penodol ar gyfer unrhyw ardaloedd yn Ninas a Sir Abertawe, er mwyn osgoi cael niferoedd sylweddol o bobl yn symud o un ardal i ardal arall i chwilio am fangre ag oriau agor hwyrach.

7.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yn ofalus oriau busnes mangreoedd sydd mewn ardaloedd preswyl yn bennaf a bydd yn pennu amodau caeth mewn perthynas â rheoli sŵn pan dderbynnir sylwadau a phan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

7.5 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn caniatáu i siopau ac archfarchnadoedd werthu alcohol, i'w yfed y tu allan i'r adeilad, ar unrhyw adeg yn ystod oriau busnes y safle manwerthu. Ni phennir mesurau sy'n cyfyngu ar yr oriau pan ganiateir gwerthu alcohol o fangreoedd o'r fath oni dderbynnir sylwadau a cheir tystiolaeth y bydd yr oriau estynedig yn achosi i'r fangre fod yn ganolbwynt anrhefn a tharfu.

7.6 Gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried cyflwyno Gorchymyn Cyfyngu ar Alcohol yn y Bore Cynnar a fydd yn gwahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol rhwng 00.00 (ganol nos) a 06.00, yn yr ardal gyfan neu ran ohoni, os yw'n fodlon y bydd hyn yn briodol at ddiben hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

## 8. PLANT

8.1 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyfyngu ar fynediad plant i fangreoedd oni bai fod hyn yn angenrheidiol er mwyn eu diogelu rhag niwed corfforol, moesol neu seicolegol. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn plant rhag y niwed sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag yfed alcohol a hefyd niwed ehangach fel dod i gysylltiad ag iaith gref, iaith rywiol, ymosodiad corfforol a hefyd amddiffyn rhag camfanteisio rhywiol.

8.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried rhinweddau unigol pob cais unigol.

8.3 Wrth ystyried pob cais, bydd y meysydd canlynol yn peri pryder arbennig o ran plant:

- Lle darperir adloniant neu wasanaethau i oedolion yn benodol neu o natur rywiol fel arfer;
- Lle mae aelodau staff wedi cael eu heuogfarnu am werthu alcohol i bobl dan oed neu mae gan y fangre enw drwg am ddenu yfwyr dan oed;
- Lle mae'r fangre'n hysbys am gymryd cyffuriau neu ddelio;
- Lle mae gamblo'n nodwedd flaenllaw;
- Lle gwerthu alcohol i'w yfed yn y fangre yw prif ddiben y gwasanaeth a ddarperir neu ei unig ddiben.

8.4 Lle'r ystyrir bod angen cyfyngu ar fynediad plant er mwyn atal niwed, gellir mabwysiadau'r mesurau canlynol:

- Cyfyngiadau ar yr oriau pan ganiateir i blant fod yn bresennol;
- Cyfyngiadau ynglŷn â gwahardd plant dan oedran penodol yn ystod gweithgareddau penodol;
- Cyfyngiadau ar y rhannau o'r fangre y gellir caniatáu i blant gael mynediad iddynt;
- Cyfyngiadau oedran;
- Gofynion i fod yng nghwmni oedolion;
- Gwahardd pobl dan 18 oed yn llwyr yn ystod gweithgareddau trwyddedadwy.

Ni chaiff amodau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i blant gael mynediad i unrhyw fangre eu hatodi i drwyddedau neu dystysgrifau.

8.5 Lle nad oes unrhyw gyfyngiadau trwyddedu ar waith y trwyddedai fydd yn penderfynu a gaiff plant fynediad i'r fangre. Os yw trwyddedeion o'r farn y dylid rhoi cyfyngiadau ar waith, dylid nodi hyn yn atodlen weithredu'r fangre.

8.6 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod pwysigrwydd Côd Ymarfer Grŵp Portman ar enwi, pecynnu a hyrwyddo diodydd alcohol wrth amddiffyn plant rhag niwed.

8.7 Yn achos mangreoedd sy'n dangos ffilmiau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn mynnu bod trwyddedeion neu glybiau'n cynnwys yn eu hatodlen weithredu drefniadau ar gyfer atal plant rhag gwylio ffilmiau â chyfyngiad oedran yn ôl Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydain (BBFC).

8.8 Wrth ystyried y cyfyngiadau sydd i'w gosod ar gyfer amddiffyn plant rhag niwed, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi pwys sylweddol ar sylwadau am faterion amddiffyn plant, yn enwedig mewn perthynas â'r awdurdod cyfrifol y mae ei swyddogaethau'n ymwneud yn uniongyrchol ag amddiffyn plant , gan gynnwys ei Fwrdd Diogelu Plant Lleol, Heddlu De Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILl).

## 9. INTEGREIDDIO STRATEGAETHAU

9.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau y cynhelir polisi trwyddedu cynhwysfawr sy'n ystyried polisïau, strategaethau a mentrau eraill yr Awdurdod. Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi sylw i bolisïau/ganllawiau allanol perthnasol lle bo hynny'n briodol.

9.2 Pan fydd y Cyngor yn gweithredu fel yr Awdurdod Trwyddedu, bydd yn ymgynghori â'r holl bartïon perthnasol i sicrhau yr ymgynghorir yn llawn ar ddatblygiad ac adolygiad parhaus y polisi trwyddedu er mwyn sicrhau na fydd unrhyw wrthdaro rhwng dogfennau o'r fath a bod ymagwedd gyson ar waith.

9.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn sicrhau, hyd y gellir, y bydd yr amodau sydd ynghlwm wrth drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb yn adlewyrchu strategaethau atal troseddu lleol.

9.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr er lles cymunedau'n gyffredinol.

9.5 Pan fydd y Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Trwyddedu, bydd yn cydgysylltu â'r Heddlu a'r Awdurdod y Priffyrdd i sicrhau, hyd y gellir, fod trefniadau cludiant yn hyrwyddo amcanion trwyddedu'r cyngor.

9.6 Wrth i'r Cyngor weithredu fel Awdurdod Trwyddedu, bydd yn ystyried anghenion yr economi twristiaeth leol a sefyllfa gyflogaeth yr ardal fel y bo'n briodol.

9.7 Lle bo'n briodol, bydd y Pwyllgor Trwyddedu yn darparu adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio a phartïon perthnasol eraill ar y sefyllfa mewn perthynas â mangreoedd trwyddedig yn yr ardal ar gais.

9.8 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi ar Sefydliadau Rhyw. Mae'r polisi hwn yn cynnwys cyfyngiad ar nifer y Lleoliadau Adloniant Rhywiol (SEV). Mae eithriad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn caniatáu i fangre ddarparu adloniant rhywiol 11 gwaith y flwyddyn ar y mwyaf a heb fod yn fwy aml nag unwaith y mis.

9.9 Nid yw rhai trwyddedau mangre o dan y Ddeddf yn caniatáu adloniant i oedolion. Yn achos rhai eraill, lle caniateir darparu adloniant i oedolion dan yr eithriad, gellir eu hadolygu os yw'r amcanion trwyddedu'n cael eu tanseilio.

## 10. HYRWYDDO CYDRADDOLDEB

10.1 Mae'r Cyngor yn rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon a hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

10.2 Y nodweddion gwarchodedig perthnasol yw oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym hefyd o'r farn bod y Gymraeg yn nodwedd warchodedig oherwydd gofynion Mesur y Gymraeg Cymru.

10.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, wrth gyflawni'i ddyletswyddau, yn cynnal Dyletswydd Cydraddoldeb y Cyngor fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 11. DYBLYGU

11.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, hyd y gellir, yn osgoi ddyblygu gwaith cyfundrefnau rheoleiddio eraill.

11.2 Lle bo deddfwriaeth eisoes mewn grym sy'n ymwneud â'r pedwar amcan trwyddedu, ni chaiff mesurau rheoli eraill, sy'n dyblygu'r gofynion cyfreithiol hyn, eu gorfodi drwy amodau trwydded, e.e. deddfwriaeth Diogelwch Tân ac Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

11.3 Yn benodol, caiff cyfundrefnau Cynllunio a Thrwyddedu eu gwahanu mewn modd priodol er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd. Ni fydd ceisiadau trwyddedu'n ailystyried cais cynllunio ac ni fydd penderfyniadau trwyddedu'n torri ar draws penderfyniadau pwyllgor cynllunio neu ganiatâd a roddwyd ar apêl. Nid oes sail gyfreithiol i'r Awdurdod Trwyddedu wrthod cais am nad oes ganddo ganiatâd cynllunio. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynghori pob ymgeisydd newydd i gysylltu â'r gwasanaethau cynllunio i sicrhau ei fod yn gwneud cais am unrhyw ganiatâd angenrheidiol.

## 12. AMODAU

12.1 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gosod amodau ar drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb sy'n gyson â'r atodlen weithredu ac sy'n briodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu. Ni ddefnyddir amodau safonol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi datblygu cronfa amodau a ddarperir yn yr arweiniad i ymgeiswyr. Lluniwyd yr arweiniad hwn i gynorthwyo ymgeiswyr wrth gwblhau eu hatodlen weithredu. Defnyddir y gronfa amodau i droi unrhyw gamau amhenodol a geir yn yr atodlen weithredu i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu Anogir ymgeiswyr i ystyried defnyddio'r gronfa hon o amodau i ymdrin â'r materion allweddol wrth gwblhau eu hatodlen weithredu. (Gweler paragraff 18). Dylai'r holl amodau fod yn -

- Glir
- Gorfodadwy

- Seiliedig ar dystiolaeth
- Cymesur
- Perthnasol
- Dylent gael eu mynegi mewn iaith glir y gellir ei deall gan y sawl y mae disgwyl iddynt gydymffurfio â hwy.

12.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried gosod amodau ychwanegol ar drwydded dim ond lle derbynnir sylwadau perthnasol gan awdurdodau cyfrifol neu bobl eraill a lle'r ystyrir bod y fath amodau yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

12.3 Bydd unrhyw amodau a atodir gan yr Awdurdod Trwyddedu i drwyddedau neu dystysgrifau yn cydweddu â maint, arddull a nodweddion y fangre neu'r digwyddiad dan sylw ac unrhyw weithgareddau a gynhelir yno.

12.4 Ni fydd amodau'n atal trwyddedai rhag rhoi mynediad i unrhyw berson na darparu rheswm dros wneud hynny oni fanylir ar hyn yn y polisi.

12.5 Ni fydd yr amodau'n ailadrodd troseddau a amlinellir yn y Ddeddf.

12.6 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn atodi'r amodau gorfodol a ddiffinnir yn y Ddeddf, (fel y'i diwygiwyd), i drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb pan fo hynny'n ofynnol. Mae'r amodau gorfodol yn ymwneud â chyflenwi alcohol, isafbris diodydd, arddangos ffilmiau, goruchwylio drysau, hyrwyddo diodydd yn anghyfrifol, dim gemau yfed, darparu dŵr yfed am ddim, mesurau o alcohol a pholisi gwirio oedran.

12.7 O ran yr amod gorfodol mewn perthynas â gwerthu alcohol sy'n nodi ei bod yn ofynnol darparu goruchwyliwr mangre dynodedig, gellir datgymhwyso hyn ar gyfer mangreoedd cymunedol penodol yn sgîl cais llwyddiannus.

## 13. GORFODI

13.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi sefydlu protocolau gorfodi ar y cyd â Heddlu De Cymru a bydd yn sefydlu protocolau gydag awdurdodau cyfrifol eraill lle bo'n briodol er mwyn mynd i'r afael â materion gorfodi ar y cyd. Er enghraifft,

Targedu: canolbwyntio ar weithgareddau sy'n arwain at y risgiau mwyaf difrifol neu lle mae'r lleiaf o reolaeth dda dros beryglon;

Cysondeb: ymagweddau tebyg mewn amgylchiadau tebyg i gyflawni dibenion tebyg;

Tryloywder: helpu deiliaid trwydded i ddeall yr hyn a ddisgwylir a gwahaniaethu rhwng gofynion statudol ac arweiniad;

Cymesuroldeb: dylai'r camau gweithredu a gymerir fod yn gymesur â'r risg a gyflwynir; a

Rheidrwydd: Ni fydd archwiliadau trwyddedu llawn yn digwydd heb reswm da. Dylid nodi, fodd bynnag, y bydd swyddogion o dîm trwyddedu'r cyngor yn parhau i wneud ymweliadau rheolaidd ag ad ***hoc â mangreoedd trwyddedig lle bo angen.*** Gall swyddogion fod yng nghwmni cydweithwyr o'r cyngor, swyddogion o Heddlu De Cymru neu gynrychiolwyr o asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.

13.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn atgoffa gweithredwyr mangreoedd trwyddedig mai eu cyfrifoldeb hwy yw darparu hyfforddiant priodol i'w staff er mwyn sicrhau bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu hyrwyddo.

13.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ddeiliaid trwydded bersonol awdurdodi gwerthu alcohol drwy nodi'r sawl sy'n cael ei awdurdodi a nodi'r gweithgareddau penodol sy'n cael eu hawdurdodi. Disgwylir hefyd i'r awdurdodiad fod yn ysgrifenedig, ei fod yn cael ei roi i'r unigolyn sy'n cael ei awdurdodi ac y rhoddir trefniadau ar waith i fonitro'r gweithgareddau.

## 14.ARWEINIAD AR DDIGWYDDIADAU AWYR AGORED A LLEOEDD GORLAWN

14.1 Os ydych yn bwriadu cynnal digwyddiad sy'n cynnwys nifer mawr o bobl, mae angen i chi gysylltu â'r Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch i sicrhau y gellir cynnal y digwyddiad yn ddiogel gyda'r holl asiantaethau perthnasol yn y sir yn gwybod amdano. Ar gyfer llawer o fathau o ddigwyddiad sy'n cynnwys nifer mawr o bobl, mae llawer o waith trefnu ac mae'r Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch yn gofyn am chwe mis o rybudd ar gyfer digwyddiadau sy'n debygol o ddenu mwy na 500 o bobl. Mae angen tri mis o rybudd ar gyfer digwyddiadau lle bydd llai na 500 o bobl yn bresennol. Efallai bydd yr arweiniad canlynol yn eich helpu pan fyddwch yn trefnu digwyddiad. *Trefnu digwyddiad a defnyddio mannau agored - Abertawe*

14.2 Bydd angen i chi fynd un o gyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch ar gyfer rhai digwyddiadau i drafod eich cynigion. Bydd hyn yn galluogi'r holl asiantaethau perthnasol i ystyried eich digwyddiad a sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ganddynt i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau sy'n codi.

14.3 Anogir trefnwyr digwyddiadau awyr agored i gyfeirio at arweiniad y 'Purple Guide' *https://www.thepurpleguide.co.uk/index.php/the-purple-guide*

14.4 Lluniwyd 'The Purple Guide to Health, Safety and Welfare at Music and Other Events' gan Fforwm y Diwydiant Digwyddiadau mewn ymgynghoriad â diwydiant digwyddiadau'r DU a chynrychiolwyr o Lywodraeth ranbarthol a chenedlaethol. Bwriedir i'r cyhoeddiad hwn ddisodli'r "Purple Guide" (HSG195) gwreiddiol, a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

14.5 Nod yr arweiniad yw helpu'r rheini sy'n trefnu digwyddiadau cerddoriaeth neu debyg, fel y gall digwyddiadau gael eu cynnal yn ddiogel. Fel cyflogwr, mae gan drefnydd y digwyddiad, boed yn unigolyn, yn sefydliad neu awdurdod lleol,

ddyletswydd gyffredinol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr. Mae arnynt ddyletswydd hefyd i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, nad yw eraill, gan gynnwys gwirfoddolwyr a gwylwyr, yn agored i risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch sy'n deillio o weithrediad y digwyddiad.

14.6 Cynghorir pob ymgeisydd a thrwyddedai i gyfeirio at yr Arweiniad Lleoedd Gorlawn ar gynyddu amddiffyniad lleoedd gorlawn rhag ymosodiad terfysgol. Mae'r DU yn wynebu bygythiad gwirioneddol gan derfysgaeth ac mae lleoedd gorlawn yn parhau i fod yn darged deniadol.

14.7 Mae lleoedd gorlawn yn cynnwys canolfannau siopa, stadia chwaraeon, bariau, tafarndai a chlybiau sy'n hygyrch iawn i'r cyhoedd ac yn ddeniadol i derfysgwyr.

14.8 Ysgrifennwyd yr arweiniad hwn i helpu'r rheini sy'n gyfrifol am ddiogelwch mewn lleoedd gorlawn, lliniaru'r bygythiad a helpu i wneud y DU yn llai agored i ymosodiad. https://www.gov.uk/government/publications/crowded-places-guidance

## 15. CEISIADAU AM DRWYDDEDAU, TYSTYSGRIFAU, AWDURDODIADAU AC ADOLYGIADAU

15.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob cais a dderbynnir yn ôl ei deilyngdod yng nghyd-destun y pedwar amcan trwyddedu.

15.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn sicrhau bod pecynnau sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael i ymgeiswyr i ddarparu arweiniad iddynt a'u cynorthwyo wrth gyflwyno'u ceisiadau. Anogir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol i drafod cynnwys eu ceisiadau arfaethedig, cyn eu cyflwyno, er mwyn datrys unrhyw broblemau posib ac osgoi unrhyw wrandawiadau ac apeliadau diangen. Dylid nodi y gellir codi tâl am y gwasanaeth hwn.

15.3 Wrth baratoi cais, bydd yn rhaid i bob ymgeisydd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf er mwyn atal oediad yn y broses benderfynu. Dylid nodi mai cyfrifoldeb y Swyddog Trwyddedu yw penderfynu a yw ceisiadau'n cydymffurfio â'r gofynion statudol ai peidio. Lle nad yw ceisiadau'n cydymffurfio â'r gofynion hynny, dychwelir ceisiadau i'r ymgeisydd a bydd angen ailgyflwyno'r cais. Anogir trefnwyr digwyddiadau i holi'r awdurdod os nad ydynt yn sicr a ystyrir bod gweithgaredd neu berfformiad yn eithriedig rhag gofynion trwyddedu. Bydd ceisiadau am Drwydded Bersonol yn cael eu hystyried gan breswylwyr sy'n byw yn Abertawe yn unig.

15.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn derbyn bod gan Bobl Eraill neu awdurdodau cyfrifol, fel y'u diffinnir yn y Ddeddf, yr hawl i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â chais, neu i ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif o fewn darpariaethau'r Ddeddf. Ystyrir sylwadau o'r fath yn ôl eu teilyngdod a sut maent

yn berthnasol i'r effaith debygol ar hyrwyddo o leiaf un neu fwy o'r amcanion trwyddedu os rhoddir y drwydded neu'r dystysgrif. Yn ogystal, sut mae'r sylwadau'n berthnasol i hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu yn achos trwydded neu dystysgrif sy'n cael ei hadolygu. Pan gyflwynir sylwadau ar ffurf deiseb, ni chaiff ei hystyried oni bai ei bod yn berthnasol i un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu a gellir dangos bod manylion y sylwadau wedi'u hegluro i bawb a'i llofnododd, h.y. mae'r pennawd wedi'i gynnwys ar bob tudalen y ddeiseb. Gellir cyflwyno sylwadau cadarnhaol neu gefnogol yn hytrach na rhai negyddol ond rhaid iddynt ddangos o hyd bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu hyrwyddo.

15.5 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, drwy'r cynllun dirprwyo i Swyddogion ym mharagraff 17 y polisi hwn, yn gwrthod cais am fân amrywiad os caiff sylw perthnasol ei wneud gan Awdurdod Cyfrifol neu Berson Arall. Yn yr un modd, bydd yn gwrthod unrhyw sylwadau os dangosir eu bod yn amherthnasol, yn flinderus, yn wacsaw neu'n ailadroddus.

15.6 Gall Pobl Eraill ofyn i gynrychiolydd gyflwyno sylwadau ar eu rhan, gan gynnwys cynrychiolydd cyfreithiol, cyfaill, Aelod Seneddol, Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynghorydd Ward lleol, Cynghorydd Plwyf neu Gymuned. Gellir cael arweiniad manwl ar Bobl Eraill yn cyflwyno sylwadau neu gais i adolygu trwydded neu dystysgrif ar wefan y Swyddfa Gartref [www.homeoffice.gov.uk](http://www.homeoffice.gov.uk)

15.7 Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r awdurdod fynd heb yr angen am wrandawiad Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol, os yw pob parti sy'n gwneud sylwadau'n cytuno nad oes angen gwrandawiad. Bydd y cytundeb yn cynnwys newidiadau i'r amserlen weithredu, i gynnwys unrhyw sylwadau a diwygiadau perthnasol i'r amodau arfaethedig a bydd yn rhoi rhybudd i'r perwyl hwnnw.

15.8 Lle bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn penderfynu ar gais ar ôl derbyn sylwadau, bydd yn darparu rhesymau cynhwysfawr, yn ysgrifenedig, dros y penderfyniad.

15.9 Lle na bydd awdurdodau cyfrifol a Phobl Eraill yn cyflwyno unrhyw sylwadau perthnasol mewn perthynas â chais, caiff y drwydded ei chaniatáu, ac ni fydd unrhyw amodau ynghlwm wrthi ac eithrio rhai sy'n gyson â'r atodlen weithredu ac amodau gorfodol perthnasol eraill.

15.10 Lle bwriedir cynnal gweithgareddau dros dro a ganiateir, mae'n ofyniad statudol i gyflwyno Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro Safonol o leiaf ddeng niwrnod gwaith cyn y digwyddiad arfaethedig. Rhoddir hysbysiad, wedi'i ddyblygu, i'r Awdurdod Trwyddedu a rhoddir copïau i'r Heddlu ac Is-adran Rheoli Llygredd ar yr un diwrnod. (Gweler Pwyntiau Cyswllt ar gyfer Trwyddedu, paragraff 20). Nid yw'r 10 niwrnod gwaith yn cynnwys y diwrnod pan dderbynnir yr hysbysiad gan yr awdurdod hwn a diwrnod y digwyddiad. Dylid nodi mai dyma'r cyfnod amser lleiaf ac anogir trefnwyr digwyddiadau i gyflwyno hysbysiadau ymhell cyn y deng niwrnod gwaith. Ystyrir tri mis cyn y digwyddiad yn arfer gorau.

15.11 Gellir cyflwyno Hysbysiad o Ddigwyddiad Dros Dro hwyr heb fod yn gynt na naw diwrnod gwaith cyn y digwyddiad a 5 niwrnod cyn y digwyddiad fan bellaf. Eto, nid yw'r diwrnodau gwaith yn cynnwys y diwrnod pan gaiff ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu a diwrnod y digwyddiad. Os oes gwrthwynebiad i Hysbysiad o Ddigwyddiad Dros Dro hwyr gan yr Heddlu neu'r adran Rheoli Llygredd ni fydd y digwyddiad yn ddilys ac ni fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal.

15.12 Dyma'r cyfyngiadau ychwanegol a osodir ar Hysbysiadau o Ddigwyddiad Dros Dro:

- Ni chaniateir mynediad i fwy na 499 o bobl sy'n cynnwys y gynulleidfa, y perfformwyr a'r staff.
- Ni chaiff un digwyddiad bara mwy na 168 o oriau.
- Ni chaiff mangre gynnal mwy na 15 digwyddiad neu fwy na 21 diwrnod mewn blwyddyn galendr, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.
- Mae'n rhaid bod 24 awr rhwng pob digwyddiad.
- Mae deiliaid trwydded bersonol wedi'u cyfyngu i gyflwyno 50 o Hysbysiadau o Ddigwyddiad Dros Dro safonol mewn blwyddyn galendr, a gall hyn gynnwys hyd at 10 Hysbysiad o Ddigwyddiad Dros Dro hwyr.
- Mae'r rheini nad oes ganddynt drwydded bersonol wedi'u cyfyngu i gyflwyno 5 Hysbysiadau o Ddigwyddiad Dros Dro safonol mewn blwyddyn galendr, a gall hyn gynnwys hyd at 2 Hysbysiad o Ddigwyddiad Dros Dro hwyr.
- Nid yw ffioedd ar gyfer Hysbysiadau o Ddigwyddiad Dros Dro yn drosglwyddadwy
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r ddolen hon: Hysbysiadau o ddigwyddiad dros drodro - Abertawe

15.13 Dylai defnyddwyr mangreoedd arfaethedig nodi nad yw Sadyrnau, Suliau, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a Gwyliau Banc a ddiffinnir gan y Ddeddf a Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971, yn ddiwrnodau gwaith.

15.14 Bydd derbyn unrhyw ohebiaeth, gan gynnwys ceisiadau, Hysbysiadau o Ddigwyddiad Dros Dro a sylwadau, yn ddarostyngedig i'r dyddiadau cau a osodir gan y Ddeddf, yr arweiniad a'r ddogfen bolisi hon. Caiff unrhyw ohebiaeth o'r fath ei derbyn tan ganol nos ar y dyddiad cau priodol. Lle caiff gohebiaeth ei danfon â llaw i'r Ganolfan Ddinesig/Neuadd y Ddinas y tu allan i oriau gwaith arferol, dylid cofnodi'r dyddiad a'r amser ar yr ohebiaeth ei hun, a fydd yn cael ei gwirio, a'i chofnodi os oes angen, gan aelod o'r staff diogelwch. Anogir ceisiadau electronig ar gyfer pob gweithgaredd a reoleiddir o dan Ddeddf 2003, ac eithrio Adolygiadau Trwyddedau, oni bai fod yr Awdurdod Trwyddedu yn cytuno ymlaen llaw. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ynTrwyddedau alcohol ac adloniant - Abertawe

15.15 Parthed y broses adolygu, bydd awdurdodau cyfrifol yn ceisio hysbysu deiliaid trwydded yn gynnar am unrhyw bryderon a nodwyd mewn mangre. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae'r amcan atal trosedd ac anhrefn yn cael ei danseilio,

disgwylir i ystyriaeth ddifrifol gael ei rhoi i ddiddymu'r drwydded, hyd yn oed yn y lle cyntaf.

## 16. GWEINYDDU

16.1 Mae'r Cyngor wedi penodi Pwyllgor Trwyddedu Statudol, yn unol â'r Ddeddf. Sefydlir Is-bwyllgorau Trwyddedu Statudol gyda 3 aelod o blith aelodau'r prif Bwyllgor Trwyddedu Statudol.

16.2 Bydd gan Is-bwyllgorau Trwyddedu Statudol awdurdod dirprwyedig i ymdrin â'r swyddogaethau a nodir ym mharagraff 17 isod.

16.3 Bydd gan swyddogion awdurdod dirprwyedig i ymdrin â cheisiadau fel yr amlinellir ym mharagraff 17 isod.

16.4 Darperir adroddiadau gwybodaeth sy'n manylu ar benderfyniadau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Trwyddedu Statudol er gwybodaeth, yn unol â dymuniad yr Aelodau.

16.5 Bydd yr Aelodau Etholedig a'r Swyddogion Awdurdodedig yn gweithredu mewn modd cywir ar bob adeg, yn unol â'r Codau Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

16.6 Bydd unrhyw Gynghorydd sy'n aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu Statudol ac sy'n cyflwyno sylwadau ar ran person arall, neu ar ei ran ei hun, mewn perthynas â chais, yn anghymwyso'i hun rhag cymryd rhan yn y broses o benderfynu mewn perthynas â'r y cais hwnnw.

16.7 Mae'r tabl a geir ym mharagraff 17 isod yn manylu ar y drefn y cytunwyd arni i ddirprwyo swyddogaethau ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu Statudol, yr Is-bwyllgorau Statudol a'r Swyddogion Awdurdodedig.

16.8 Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar ddeiliaid trwydded mangre a mangre clwb i dalu ffi flynyddol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn anfon nodyn i atgoffa pobl o'r gofyniad hwn tua 4-6 wythnos cyn y dyddiad pan fydd yn ddyledus. Bydd yr ohebiaeth hon hefyd yn amlinellu'r camau gweithredu a gymerir os bydd anghydfod am y ffi honno ynghyd â'r weithdrefn ar gyfer atal y drwydded neu'r dystysgrif os nad yw'r ffi'n cael ei thalu.

## 17. DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

17.1

| Mater i ymdrin ag ef | Pwyllgor Llawn | Is-bwyllgor | Swyddogion |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cais am drwydded bersonol | | Os derbynnir gwrthwynebiad gan yr heddlu | Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad |
| Cais am drwydded bersonol gyda chollfarnau heb ddarfod | | Pob achos | |
| Cais am drwydded mangre/dystysgrif mangre clwb | | Os derbynnir sylwadau perthnasol | Os na dderbynnir sylwadau perthnasol |
| Cais am ddatganiad amodol | | Os derbynnir sylwadau perthnasol | Os na dderbynnir sylwadau perthnasol |
| Cais i amrywio trwydded mangre/tystysgrif mangre clwb | | Os derbynnir sylwadau perthnasol | Os na dderbynnir sylwadau perthnasol |
| Cais i amrywio deiliad trwydded dynodedig | | Os derbynnir gwrthwynebiad gan yr heddlu | Pob achos arall |
| Cais i ddileu enw rhywun fel goruchwyliwr mangre dynodedig | | | Pob achos |
| Cais i drosglwyddo trwydded mangre | | Os derbynnir gwrthwynebiad gan yr heddlu | Pob achos arall |
| Cais am Awdurdod Dros Dro | | Os derbynnir gwrthwynebiad gan yr heddlu | Pob achos arall |
| Cais i adolygu trwydded mangre/tystysgrif mangre clwb | | Pob achos | |
| Penderfyniad a yw cwyn yn amherthnasol, yn wacsaw, yn flinderus, etc. | | | Pob achos |
| Penderfyniad i wrthwynebu pan fo awdurdod lleol yn ymgynghorai ac nid yr awdurdod perthnasol sy'n ystyried y cais. | | Pob achos | |
| Penderfynu ar wrthwynebiad ihysbysiad o ddigwyddiad dros dro. | | Pob achos | |
| Penderfynu ar gais i amrywio trwydded mangre mewn mangre gymunedol er mwyn cynnwys amod trwydded | | Os derbynnir gwrthwynebiad gan yr heddlu | Pob achos arall |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwahanol. | | | |
| Penderfyniad a ddylid ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol eraill ynglŷn â chais am fân amrywiad. | | | Pob achos |
| Penderfynu ar gais am fân amrywiad. | | | Pob achos |
| Dosbarthiad Ffilmiau | | | Pob achos |
| Pŵer i atal trwydded mangre a thystysgrif mangre clwb am nad yw'r ffi flynyddol wedi'i thalu a phŵer i nodi'r dyddiad y daw'r penderfyniad hwnnw i rym. | | | Pob achos |
| Pŵer i gyflwyno sylwadau i Awdurdod Cyfrifol ar gais am drwydded mangre a thystysgrif mangre clwb. | | | Pob achos |
| Pŵer i gyflwyno cais am adolygiad o drwydded mangre a thystysgrif mangre clwb fel Awdurdod Cyfrifol. | | | Pob achos |

## 18. YR AMCANION TRWYDDEDU

18.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyflawni'i swyddogaeth i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, sef:

- *atal trosedd ac anhrefn;*
- *diogelwch y cyhoedd;*
- *atal niwsans cyhoeddus; ac*
- *amddiffyn plant rhag niwed*

18.2 Disgwylir i ymgeisydd am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb neu am amrywiad sylweddol i'r fath drwydded neu dystysgrif gynnal asesiad risg trylwyr o ran yr amcanion trwyddedu. Bydd yr asesiad risg yn nodi'r camau y mae angen eu cynnwys yn yr atodlen weithredu er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Bydd yr amserlen weithredu'n cael ei chyfieithu i amodau ac anogir ymgeisydd i ddefnyddio'r gronfa o amodau sydd ar gael yn yr arweiniad. Disgwylir i'r ymgeisydd hefyd ystyried yr holl ddeddfwriaeth bresennol sy'n effeithio ar yr amcanion trwyddedu e.e. diogelwch tân, iechyd a diogelwch, er mwyn osgoi'r posibilrwydd o ddyblygu. (Gweler paragraff 11).

18.3 Oherwydd y ddeddfwriaeth i atal smygu dan do mewn mangreoedd cyhoeddus, mae llawer o gwsmeriaid mangreoedd a chlybiau trwyddedig yn defnyddio'r ardaloedd allanol. Mae'n rhaid i ddeiliaid trwydded mangre, clybiau goruchwylwyr mangre dynodedig ac ymgeiswyr ystyried sut bydd hyn yn effeithio ar y pedwar amcan trwyddedu.

18.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y bydd y camau y gall ymgeisydd eu cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu'n amrywio, gan ddibynnu ar y math o fangre a'r math o weithgareddau trwyddedadwy a gynhelir yno. Anogir ymgeiswyr i roi sylw i'r nodiadau arweiniad y cyfeirir atynt ym mharagraff 12.1 wrth gwblhau eu ceisiadau.

## 19. MATERION CYFFREDINOL

19.1 Bydd y Cyngor yn gweithio ar y cyd â'r holl drwyddedeion, darpar drwyddedeion ac asiantaethau statudol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf.

19.2 Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch agweddau ar gyfrifoldebau neu ofynion, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ymgeiswyr a'r asiantaethau statudol i ddatrys y mater.

## 20. PWYNT CYSWLLT AR GYFER TRWYDDEDU

20.1 I gynorthwyo ymgeiswyr i gyflwyno'u ceisiadau ac am wybodaeth a chyngor, dyma'r manylion cyswllt ar gyfer trwyddedu.

1. **Yr Awdurdod Trwyddedu** - ar gyfer pob cais. Fel Awdurdod Cyfrifol hefyd.
   Is-adran Drwyddedu
   Cyfarwyddiaeth Lleoedd
   Cyngor Abertawe
   Neuadd y Ddinas
   Abertawe
   SA1 4PE
   Ffôn: 01792 635600
   E-bost: Trwyddedu.IyA@abertawe.gov.uk
   Gwefan: www.abertawe.gov.uk

2. Mae manylion yr awdurdodau cyfrifol as ddylai dderbyn copïau o geisiadau am drwyddedau mangre, tystysgrifau mangre clwb ac amrywiadau ac adolygiadau o'r rhain i'w gweld isod:

A. **Yr Heddlu** (hefyd ar gyfer hysbysiadau o ddigwyddiadau dros dro, ceisiadau i drosglwyddo trwyddedau mangre ac amrywio Goruchwylwyr Mangre Dynodedig)

Prif Swyddog yr Heddlu
Heddlu De Cymru
Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol
Gorsaf Heddlu Ganolog Abertawe
Grove Place
Abertawe
SA1 5EA
Ffôn: 01792 562707
E-bost GM-WesternCommunitySafety@south-wales.pnn.police.uk

B. **Yr Awdurdod Tân**

Swyddog Trwyddedu
Ardal Reoli Abertawe
Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Sway Road
Treforys
Abertawe
SA6 6JA
Ffôn: 0870 6060699
E-bost: swansealicencing@mawwfire.gov.uk

C. **Iechyd a Diogelwch**

i. **Mangreoedd a reolir gan yr Awdurdod Lleol**
Is-adran Bwyd a Diogelwch
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Cyngor Abertawe
Neuadd y Ddinas
Abertawe
SA1 4PE
Ffôn: 01792 635600
E-bost: bwydadiogelwch@abertawe.gov.uk

ii. **Mangreoedd a reolir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Dio**
HSE
Adeilad y Llywodraeth
Cam 1
Tŷ Glas
Llanishen
Caerdydd
CF14 5SH
Ffôn: 0300 003 1747

| **Os nad ydych yn sicr pwy sy'n rheoli'ch mangre, cysylltwch naill ai ag i neu ii am eglurhad.** |
|---|

Ch.**Cynllunio**

Polisi Cynllunio ac Apeliadau
Y Gwasanaethau Cynllunio
Adran Adfywio Economaidd a Chynllunio
Cyngor Abertawe
Canolfan Ddinesig
Abertawe
SA1 3SN
Ffôn: 01792 636000
E-bost: enforcement.development@abertawe.gov.uk

D. **Safonau Masnach**

Is-adran Safonau Masnach
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Cyngor Abertawe
Neuadd y Ddinas
Abertawe
SA1 4PE

Ffôn: 01792 635600
E-bost: safonaumasnach@abertawe.gov.uk

Dd. **Llygredd** (Hefyd ar gyfer hysbysiadau o ddigwyddiad dros dro)

Is-adran Rheoli Llygredd
Adran Lleoedd
Cyngor Abertawe
Neuadd y Ddinas
Abertawe
SA1 4PE

Ffôn: 01792 635600
E-bost: pollution@swansea.gov.uk

E. **Amddiffyn Plant**

Gwasanaethau Plant Abertawe
Prif Swyddog ar gyfer Diogelu/Swyddog Dynodedig Awdurdodau Lleol
Ystafell 407
Neuadd y Ddinas
Abertawe
SA1 4PE
Ffôn: 01792 636000

F. **Bwrdd Iechyd Lleol**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
1 Talbot Gateway
Port Talbot
SA12 7BR
Ffôn: 01639 683386

Ff. **Awdurdod Trwyddedu Cyfagos** (os yw rhan o'r fangre yn yr awdurdod hwnnw ac ar gyfer hysbysiadau o ddigwyddiad dros dro dan yr un amgylchiadau)

i. **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**
Is-adran Drwyddedu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Canolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ
Ffôn: 01639 763050 neu 01639 763059
E-bost: trwyddedu@neath-porttalbot.gov.uk

ii. **Cyngor Sir Gâr**
Trwyddedu
Amddiffyn y Cyhoedd
Cyngor Sir Gâr
3 Stryd Spilman
Caerfyrddin
Sir Gâr
SA31 1LE
Ffôn: 01267 234567
E-bost: schlicensing@carmarthenshire.gov.uk
diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

G. **Llongau**

i. **Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**
Prif Swyddfa/Head Office
First Floor North
Station House
500 Elder Gate
Milton Keynes
MK9 1BB
Ffôn: 0303 040 4040

ii. **Cyfoeth Naturiol Cymru** ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

iii. **Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref**
Direct Communications Unit
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF
E-bost: public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 7035 4848